

REPORT OF CHIEF EXECUTIVE

SUBJECT: ANNUAL AUDIT LETTER 2020-21 AND ANNUAL AUDIT SUMMARY 2021

The Auditor General for Wales' Annual Audit letter details his statutory responsibilities under the Public Audit (Wales) Act 2004 and the Code of Audit Practice. In addition, Audit Wales have provided an Annual Audit Summary 2021. Both documents are attached.

Recommendation

Members are asked to NOTE the Annual Audit Letter and Annual Audit Summary 2021.

Background Documents

None

(For further information, please contact Richard Griffiths Ext 4815)

Cyfeirnod: 2705A2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2021

Archwiliad o asesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro o'i berfformiad 2020-21

Tystysgrif

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio asesiad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (yr Awdurdod) o'i berfformiad yn 2020-21 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad:

- wrth gyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- wrth gyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u gosod ei hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru, a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; ac
- wrth fodloni unrhyw safonau perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn yr un o dan sylw y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Awdurdod, mae'n ofynnol i mi o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur gynnal archwiliad i benderfynu a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, i ardystio fy mod wedi gwneud hynny, ac i adrodd a wyf yn credu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, byddaf yn derbyn, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb gwybodaeth. Roedd fy archwiliad o asesiad perfformiad y Awdurdod, felly, yn cynnwys adolygiad o gyhoeddiad yr Awdurdod i ganfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, a bod yr Awdurdod wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur er mwyn nodi'r holl wendidau neu gyfleoedd i wella.



Adrian Crompton

Archwilydd Cyffredinol Cymru

CC: Rebecca Evans AS – Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

Nick Selwyn – Rheolwr Archwilio

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro Crynodeb Archwilio Blynyddol 2021

Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021. Mae ein crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar gael ar ein [gwefan](#).



Ynglŷn ag Awdurdod y Parc Cenedlaethol

Rhai o'r gwasanaethau y mae'r Awdurdod yn eu darparu



Ffeithiau allweddol

Mae'r Awdurdod wedi'i gyfansoddi o 18 o aelodau sy'n cynrychioli'r canlynol:

- Penodeion Llywodraeth Cymru – 6
- Aelodau Cyngor Sir Penfro – 12

Gwariodd yr Awdurdod £7.6 miliwn ar ddarparu gwasanaethau yn ystod 2020-21 o'i gymharu â £7.4 miliwn yn 2019-20. Mae hyn yn rhoi'r Awdurdod yn ail o dri awdurdod parc cenedlaethol Cymru ac yn wythfed uchaf o'r 13 awdurdod parc cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr¹.

Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan yr Awdurdod £6.0 miliwn o gronfeydd ariannol wrth gefn y gellid eu defnyddio o'i gymharu â £5.4 miliwn ar 31 Mawrth 2020. Mae hyn yn cyfateb i 78% o gyfanswm gwariant blynyddol yr Awdurdod ar wasanaethau, cynnydd o 73% yn 2019-20. Dyma'r canran uchaf o blith yr awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr. Gan gymryd incwm sy'n gysylltiedig â gwasanaethau i ystyriaeth, mae cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio bellach yn cynrychioli 114% o gost net gwasanaethau yr Awdurdod, i fyny o 99% yn 2019-20 a dyma'r trydydd uchaf yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cynnydd i gronfeydd wrth gefn yn rhannol oherwydd effaith pandemig COVID-19.

¹ Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon 2020-21

Ffeithiau allweddol

Yn 2020-21, cynhyrchodd yr Awdurdod £2.5 miliwn o incwm yn gysylltiedig â gwasanaethau, sy'n cynrychioli 36% o gyfanswm ei gyllid cyffredinol. Yn 2019-20, £2.0 filiwn a 33% oedd y symiau cyfatebol, yn eu trefn. Yr incwm sy'n gysylltiedig â gwasanaethau yw'r ail uchaf o dri awdurdod Cymru a'r wythfed uchaf ledled Cymru a Lloegr. 41% yw'r cyfartaledd ar gyfer holl awdurdodau Cymru a Lloegr. 57% yw'r gyfran uchaf ar gyfer awdurdod yng Nghymru a 55% ar gyfer awdurdod yn Lloegr.

Yn 2020-21, gwnaed penderfyniad prydlon ar 66.31% o'r holl geisiadau cynllunio. 109.75 diwrnod oedd y cyfnod cyfartalog o amser a gymerwyd gan yr Awdurdod i benderfynu ar geisiadau.

Caiff penderfyniad ei wneud ar 92.45% o geisiadau trwy ddefnyddio pwerau dirprwyedig. Gwrthodwyd 75% o apelïadau cynllunio, a gwnaed 7.14% o benderfyniadau gan aelodau yn groes i gyngor swyddogion.

Ymchwilir i 78.15% o achosion gorfodi o fewn 84 diwrnod ond 103 diwrnod yw'r amser cyfartalog a gymerir i gyflawni gwaith gorfodi cadarnhaol.

Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

Cwblhawyd gwaith gennym yn ystod 2020-21 i fodloni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio Cyfrifon**

Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod i wneud yn siŵr bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrifyddu yn briodol.

- **Gwelliant parhaus**

Bu'n rhaid hefyd i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, a bu'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu a wnaeth yr Awdurdod fodloni'r gofynion hyn yn ystod 2020-21.

- **Gwerth am arian**


Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian o'r adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid iddo fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.

- **Egwyddor datblygu cynaliadwy**

Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.



Rydym yn parhau i gydnabod y straen enfawr ar wasanaethau cyhoeddus ac i weithio mewn ffordd sy'n ceisio lleihau'r effaith ar ymateb cyrff cyhoeddus i COVID-19, gan barhau i gyflawni ein dyletswyddau statudol.



I gyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn cwblhau prosiectau penodol, ond rydym hefyd yn dibynnu ar waith archwilio arall, a gwaith rheoleiddwyr. Rydym yn cymryd canfyddiadau ein gwaith archwilio i ystyriaeth wrth asesu a yw'r Awdurdod wedi rhoi trefniadau ar waith i sicrhau gwerth am arian. Caiff ein canfyddiadau a'n casgliadau eu crynhoi isod.

Yr hyn a ganfuwyd gennym

Archwiliad o Gyfrifon 2020-21 Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Rydym yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod bob blwyddyn.

Ar gyfer 2020-21:

- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod gwir a theg ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar 29 Gorffennaf 2021, dau ddiwrnod cyn y dyddiad terfyn statudol. Bodlonwyd y dyddiad statudol er gwaethaf yr anawsterau parhaus sy'n deillio o COVID-19.
- paratowyd Datganiad Llywodraethu ac Adroddiad Naratif Blynyddol yr Awdurdod yn unol â Chod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod a gyda'n gwybodaeth am yr Awdurdod.
- roedd ansawdd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio ar 15 Mehefin 2021 yn gyffredinol dda.
- gwnaed nifer o newidiadau i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod yn deillio o'n gwaith archwilio, a adroddwyd i'r Awdurdod yn ein Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ym mis Gorffennaf 2021.
- mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cyflwyno'r dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon ar gyfer 2020-21 wedi'i gwblhau.

Ein gwaith mewn ymateb i bandemig COVID-19

Mewn ymateb i bandemig COVID-19, newidiwyd dull a phwyslais ein gwaith archwilio perfformiad mewn llywodraeth leol a chyrrff cyhoeddus eraill. Ceir crynodeb isod o rywfaint o'r gwaith yr ydym wedi ei wneud mewn ymateb i'r pandemig ar draws nifer o sectorau, y mae llawer ohono yn berthnasol i lywodraeth leol.

Ymgwymerwyd â phrosiect gennym i gynorthwyo ymdrechion y sector cyhoeddus trwy rannu'r hyn a ddysgwyd drwy'r pandemig. Nod y prosiect oedd helpu i gymell rhywfaint o syniadau a chyfnewid arferion. [Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.](#)

Ym mis Mawrth 2021, cyhoeddwyd [adroddiad cenedlaethol](#) gennym yn cynnig trosolwg o gynnydd hyd yma o ran Profi, Olrhain, Diogelu yng Nghymru. Ym mis Rhagfyr 2020, fe wnaethom hefyd gyhoeddi rhai o [arsylwadau](#) yr Archwilydd Cyffredinol ar gaffael a chyflenwi cyfarpar diogelu personol yn ystod pandemig COVID-19, wedi eu dilyn gan [adroddiad](#) ym mis Ebrill 2021. Hefyd, ym mis Mehefin 2021, cyhoeddwyd ein [hadroddiad](#) ar weithredu rhaglen frechu COVID-19 yng Nghymru.

Gwelliant parhaus

Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau a oedd yn weddill o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 ar gyfer blwyddyn ariannol 2020-21, fel y'u cadwyd gan orchymyn a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Archwiliad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Yn 2020-21, adolygwyd cydnerthedd a chynaliadwyedd gwasanaethau'r Awdurdod gennym, i gynnig sicrwydd ynghylch pa mor dda yr oedd heriau ariannol a chapasiti yn cael sylw. Yn gyffredinol, daeth ein hadroddiad i'r casgliad bod yr Awdurdod yn sefydliad hyblyg a chryf yn wyneb bygythiadau trafferthus uniongyrchol, ond mae angen gwaith pellach i sicrhau bod hyn yn parhau dros y tymor hwy.

Astudiaethau Llywodraeth Leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob cyngor lleol, rydym hefyd yn cyflawni astudiaethau bob blwyddyn ar draws y sector llywodraeth leol i wneud argymhellion ar gyfer gwella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwelliant blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol:

Gwasanaethau yn ôl disgrisiwn (Ebrill 2021)

Mae pwysau ariannol wedi arwain i gynghorau leihau gwariant a thorri gwasanaethau, ond mae'r pandemig wedi dangos bod gwasanaethau llywodraeth leol yn hanfodol i gadw pobl yn ddiogel ac yn iach. Canolbwyntiwyd ar sut mae cynghorau yn diffinio gwasanaethau, y systemau a'r prosesau y maent wedi eu defnyddio i adolygu gwasanaethau a pha mor gadarn yw'r rhain. Mae galw am rai gwasanaethau hanfodol yn parhau i gynyddu ac nid yw cynghorau yn hyderus y gallant barhau i ddarparu'r gwasanaethau hyn yn wyneb y galw cynyddol a

chymhleth hwn. Mae angen i gynghorau fanteisio ar y cyfle i adnewyddu, ail-werthuso ac ail-osod yr hyn y maent yn ei wneud a dysgu o'r pandemig i greu dyfodol gwell. Cyhoeddwyd ein [hadroddiad](#) ym mis Ebrill 2021.

Adfywio canol trefi yng Nghymru (Medi 2021)

Rhwng 1950 a 1980, blaenoriaethwyd adfywio canol trefi gan awdurdodau lleol gan greu lle manwerthu newydd a mwy. Fodd bynnag, mae dewisiadau polisi y gorffennol, disgwyladau newidiol defnyddwyr a datblygiadau technolegol yn cael effaith niweidiol ar lawer o ganol trefi Cymru erbyn hyn. Ac mae'r pandemig wedi creu heriau i lywodraeth leol a llywodraeth ganolog, gydag un o bob saith siop ar strydoedd mawr Cymru yn wag erbyn hyn, er i Lywodraeth Cymru fuddsoddi ac ysgogi £892.6 miliwn yn y saith mlynedd diwethaf. Nid oes gan awdurdodau lleol y capasiti i ymateb i'r sefyllfa hon ac nid ydynt bob amser yn defnyddio'r pwerau sydd ganddynt i helpu i adfywio trefi. I gyflawni'r canlyniadau lleol gorau, mae angen alinio ac integreiddio polisiâu a chydweithio, a blaenoriaethu adnoddau i ganol trefi. Cyhoeddwyd ein [hadroddiad](#) ym mis Medi 2021.

Gwaith arfaethedig ar gyfer 2021-22

Edrychwyd gennym hefyd ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Awdurdod i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol o ran yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r defnydd o'i adnoddau.

Y perygl a'r broblem fwyaf sylweddol sy'n wynebu awdurdodau a'r sector cyhoeddus ehangach yn 2021-22 yw pandemig COVID-19 o hyd. Rydym wedi llunio ein gwaith i ddarparu sicrwydd a her mewn ffordd sy'n helpu i gynorthwyo'r Awdurdod drwy'r cyfnod hwn. Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2021-22 yn cynnwys adolygiad o sut mae'r Awdurdod yn hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, ac fe'i penodir gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau'r parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfriad â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gall gynnal arolygiadau arbennig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Senedd a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.